OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1728 (Cy.172) (C.67)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 13 Gorffennaf 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 216(4)(b) a (5) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2004.

2. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru yn unig.

3. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 a'r Atodlenni iddi.

Diwrnodau penodedig

4. 1 Awst 2004 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

5. 1 Medi 2004 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(**1**) 2002 p.32.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

D. Elis-Thomas
13 Gorffennaf 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

RHAN 1

Darpariaethau yn dod i rym ar 1 Awst 2004

Y ddarpariaeth	Y pwnc
Adran 72	Cynigion sy'n ymwneud â dosbarthiadau chwech
Adran 215(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol 21 isod
Atodlen 9	Cynigion sy'n ymwneud â dosbarthiadau chwech — gweithredu
Atodlen 21	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
Paragraff 100(3)	

RHAN 2

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2004

Y ddarpariaeth	Y pwnc
Adran 21	Cyfrifoldeb cyffredinol dros redeg ysgol
Adran 22	Hyfforddiant a chymorth i lywodraethwyr
Adran 30	Adroddiadau llywodraethwyr a gwybodaeth arall
Adran 32	Cyfrifoldeb dros bennu dyddiadau tymhorau a gwyliau ac amserau sesiynau
Adran 39(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diffiniad o “statutory provision”	Dehongli Pennod 1
Adran 155	Arolygu addysg feithrin
Adran 176	Ymgynghori â disgyblion
Adran 215(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 21 isod	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod	Diddymiadau
Atodlen 14, paragraffau 1 i 7	Arolygu addysg feithrin
Atodlen 21 —	Mân Ddiwygiadau a Diwygiadau Canlyniadol
Paragraff 39(1) a (5)	
Paragraff 63 ac eithrio is-baragraff (a)	
Paragraff 68	

Y ddarpariaeth	Y pwnc
Paragraff 110(1) a (3) ond at ddiben dileu paragraff (e) o is-adran (6) o adran 127 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998	
Atodlen 22, Rhan 3, diddymu —	Diddymiadau
Deddf Plant 1989(**3**), adran 79P(4)(d) a'r "and" sy'n dod o'i blaen;	
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**4**).	
Adran 38, adrannau 41 a 42, adran 127(6)(e), yn adran 138, yn is-adran (4)(b), y geiriau "paragraph 4 or 8 of Schedule 23 or", ac yn is-adran (5), paragraff (a)(ii) a (iii) ac, ym mharagraff (b)(ii), y gair "46", yn Rhan II o Atodlen 11, paragraff 7, yn Atodlen 30, paragraff 204(b)	

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 1 Awst 2004 ac 1 Medi 2004 y darpariaethau hynny yn Neddf Addysg 2002 a bennir yn Rhannau 1 a 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae'r cyfeiriadau isod at adrannau ac Atodlenni (heb fanylion pellach) yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlenni iddi.

Yn achos darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn ac sy'n diwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, mae'r cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn y darpariaethau hynny i'w darllen, mewn perthynas â Chymru, fel cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru — gweler adran 211.

Mae effaith y darpariaethau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen fel a ganlyn —

> Mae adran 72 ac Atodlen 9 yn diwygio Deddf Dysgu a Medrau 2000 er mwyn galluogi Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant i gynnig sefydlu, addasu neu gau dosbarthiadau chwech. Mae ei gynigion i'w cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"). Nodir y gweithdrefnau mewn rheoliadau.

Mae effaith y darpariaethau a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen fel a ganlyn —

> Mae adrannau 21, 22, 30 a 32 yn ailddeddfu darpariaethau penodol yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") ynglŷn â llywodraethu ysgolion a gynhelir.

(**3**) 1989 p.41.
(**4**) 1998 p.31.